



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnig Gofal Plant Cymru

Canllawiau Atodol

Cyfnodau Esemptio Dros Dro

Medi 2022

Cyfnodau Esemptio Dros Dro

Beth yw Cyfnod Esemptio Dros Dro?

O dan Gynnig Gofal Plant Cymru (y Cynnig), mae Cyfnod Esemptio Dros Dro yn gyfnod o 8 wythnos, pan fydd teulu'n parhau i fod yn gymwys i gael cymorth, ond efallai nad yw mwyach yn bodloni meini prawf cymhwysra'r Cynnig.

Enghraifft o hyn yw pan fydd rhywun ar gytundeb dim awr, ac er ennill digon i fod yn gymwys i gael y Cynnig ar y dechrau, mae ei enillion dros y cyfnod wedi gostwng islaw'r isafswm sy'n ofynnol.

Er mwyn rhoi sefydlogrwydd i blant, rhieni, a darparwyr mae'r cyfnod esemptio dros dro o 8 wythnos yn rhoi cyfle i'r rhiant fod yn gymwys eto, heb orfod gwneud cais arall am y Cynnig.

Pryd dylid defnyddio Cyfnod Esemptio Dros Dro?

Amgylchiadau arferol

Mae'n bwysig nodi y bydd cyfnod esemptio dros dro yn dechrau pan fydd rhiant yn mynd yn anghymwys i fanteisio ar y Cynnig, gan gynnwys os bydd ei incwm yn fwy nag uchafswm y trothwy incwm.

Dylai cyfnod esemptio dros dro ddechrau o'r dyddiad y newidiodd amgylchiadau'r rhiant, nid o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r awdurdod lleol. Os bydd rhiant wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol yn ddiweddarach nag 8 wythnos ar ôl i'w amgylchiadau newid, dylai taliadau o dan y Cynnig ddod i ben ar unwaith a rhaid hysbysu'r darparwr.

Mae'n bwysig bod rhieni'n cael eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau i roi gwybod am unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau. Os nad ydynt yn rhoi gwybod, gallai'r cyllid gael ei dynnu'n ôl ar unwaith, a gellid cymryd camau i adennill unrhyw ordaliadau a wnaed.

Ceisiadau a Gymeradwywyd Ymlaen Llaw

Gan fod y Cynnig wedi cael ei ehangu i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant, bydd yn dod yn fwy cyffredin i gymeradwyo cais ymlaen llaw cyn cael tystiolaeth fod rhiant yn gymwys i gael y Cynnig. Bydd llawer o rieni'n gwneud cais cyn gynted ag y bydd ganddynt gynnig i astudio mewn sefydliad Addysg Bellach neu Addysg Uwch, a gallant wneud hynny drwy ddefnyddio eu gwahoddiad i ddechrau'r cwrs neu'r hysbysiad eu bod wedi cofrestru fel tystiolaeth. Ond, yn dilyn hynny, bydd angen iddynt ddarparu tystiolaeth bellach eu bod wedi dechrau eu cwrs, a bydd y rhan fwyaf o sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn gallu darparu cadarnhad ysgrifenedig i'r rhiant am eu presenoldeb.

Dylai ceisiadau sy'n cael eu cymeradwyo ymlaen llaw gael eu rhoi o dan gyfnod esemptio dros dro o'r dyddiad y bydd y cwrs yn dechrau'n ffurfiol. Yna bydd angen i rieni ddarparu rhagor o dystiolaeth cyn i'r cyfnod esemptio dros dro ddod i ben.

Bydd hyn hefyd yn berthnasol i rieni sydd heb ddechrau eu swydd ond sydd wedi darparu prawf o gynnig neu gontract.

Ailasesu bod Rhiant yn Gymwys

Fel arfer, gofynnir i rieni ailgadarnhau eu bod yn gymwys ac nad yw eu hamgylchiadau wedi newid unwaith bob tymor. Er mai hunanardystiad yw hwnnw ar gyfer y rhan fwyaf o rieni, bydd angen i 20% o rieni ddarparu rhagor o dystiolaeth (slipiau cyflog i rieni sy'n gweithio, llythyr gan y coleg, ac ati) eu bod yn dal yn gymwys. Yn yr achosion hynny, dylid dechrau cyfnod esemptio dros dro. Yna bydd gofyn i'r rhieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau eu bod yn gymwys.

Dylid hefyd wirio bod rhieni yn gymwys o hyd os bydd rhiant a fyddai fel arfer yn gymwys i gael y Cynnig i ffwrdd o'r gweithle neu o'r sefydliad addysg, ac wedi cael esemptiad dros dro am un o'r rhesymau canlynol:

- Absenoldeb mamolaeth / tadolaeth
- Absenoldeb mabwysiadu
- Absenoldeb rhiant di-dâl
- Rhiant cyflogedig sydd i ffwrdd o'r gwaith ar dâl salwch statudol
- Rhiant mewn addysg sydd wedi atal astudiaethau yn ffurfiol oherwydd salwch hirdymor

Ar ôl i'r absenoldeb dros dro ddod i ben, dylid rhoi'r cais o dan gyfnod esemptio dros dro, fel bod gofyn i'r rhiant ddarparu tystiolaeth ei fod wedi dychwelyd i'r gwaith neu i'r cwrs addysg.

Hysbysu'r Rhiant

Dylid hysbysu rhieni eu bod yn cael eu rhoi o dan gyfnod esemptio dros dro cyn gynted â phosibl. Dylai rhieni gael gwybod y dyddiad y dechreuodd y cyfnod esemptio dros dro. Mae hynny'n arbennig o bwysig os yw'r dyddiad yn gynharach na phryd y rhoddodd y rhiant wybod bod ei amgylchiadau wedi newid.

Dylid hefyd roi gwybod iddynt am y dyddiad y bydd y cyfnod esemptio dros dro yn dod i ben, gan egluro'n glir na fyddant bellach yn gymwys i gael arian o dan y Cynnig o'r dyddiad hwnnw. Dylai hefyd fod yn glir y byddant yn gyfrifol am unrhyw gostau gofal plant o'r dyddiad hwnnw a bydd angen iddynt drafod unrhyw drefniadau sydd ganddynt gyda'u darparwr gofal plant. Rhaid i Awdurdodau Lleol roi gwybod i rieni y bydd y darparwr yn cael gwybod am y cyfnod esemptio dros dro 4 wythnos ar ôl i'r cyfnod ddechrau.

Hysbysu'r Darparwr

Er y bydd y cyllid o dan y Cynnig yn dod i ben ar ôl cyfnod esemptio dros dro, bydd gan rieni gytundeb gyda'r darparwr am ofal plant o hyd, a bydd angen iddynt barhau i dalu am weddill unrhyw gontract sydd yn ei le.

Efallai y bydd darparwyr eisiau cael sicrwydd y bydd rhieni yn parhau i dalu am oriau y cytunwyd arnynt er na fyddant yn cael cymorth y Cynnig mwyach. Yn yr achosion hynny, dylai darparwyr godi eu cyfraddau arferol, p'un a ydynt yn uwch neu'n is na'r taliadau yr oeddent yn codi o dan y Cynnig.

Dylid pwysleisio i ddarparwyr na ddylai cyfnod esemptio dros dro gael ei ystyried yn rhywbeth negyddol. Fel y nodwyd uchod, mae sawl rheswm dros roi cyfnod esemptio dros dro i riant, a bydd llawer o achosion yn cael eu datrys heb unrhyw doriad mewn cyllid o dan y Cynnig. Argymhellir bod darparwyr yn cael gwybod bod rhiant wedi dechrau cyfnod esemptio dros dro 4 wythnos ar ôl i'r cyfnod ddechrau, os yw'n parhau ac nad yw'r rhiant wedi darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i brofi ei fod yn gymwys.

Wythnosau Gwyliau

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cynnwys 39 o wythnosau yn ystod tymhorau'r ysgol a 9 o wythnosau gwyliau. Yn ystod wythnosau gwyliau, gan nad yw'r ddarpariaeth addysg gynnar ar gael, mae'r cyllid yn cynnwys hyd at 30 awr o ofal plant.

Ar hyn o bryd mae nifer y lleoedd sydd ar gael yn ystod wythnosau gwyliau yn cael ei gyfrifo ar sail pro-rata. At ddibenion cyfrifo lwfansau wythnosau gwyliau a ariennir ac nas ariennir, dylid derbyn y bydd y rhieni hynny sy'n gymwys i gael y Cynnig trwy gofrestru ar gwrs addysg neu hyfforddiant sy'n hirach na 10 wythnos o hyd ond yn fyrrach na blwyddyn, yn parhau i fodloni meini prawf cymhwysra ar ôl i'w cwrs ddod i ben, oherwydd eu bod yn gwneud cwrs addysg neu hyfforddiant dilynol neu oherwydd eu bod yn cael gwaith. Felly, byddant yn gymwys i gael yr un dyraniad pro-rata o wythnosau gwyliau y byddai gan rieni sy'n gweithio hawl iddo.

Os bydd rhiant wedi'i roi o dan gyfnod esemptio dros dro ar ddiwedd ei gwrs, a bod y cyfnod esemptio dros dro yn dod i ben, mae unrhyw gais dilynol i fanteisio ar y Cynnig yn cael ei drin fel cais newydd. Nid yw'r oriau blaenorol a hawliwyd yn berthnasol at ddibenion cyfrifo wythnosau gwyliau a ariennir ac nas ariennir. Dylai'r Awdurdod Lleol ailasesu cymhwysra'r rhiant gan ei bod yn bosibl y bydd ei amgylchiadau wedi newid yn y cyfamser.